**Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Edern**

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau a llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (hPYD).
**Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD -** "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Fel ysgol mae’r GDD yn cael ei ddefnyddio i:

| Meini Prawf | ✓ | X |
|---|---|---|
| Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar. | ✓ | |
| Y GDD i'w ddefnyddio i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATh | ✓ | |
| Tystiolaeth o olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn; | ✓ | |
| Rhoi blaenoriaeth uchel i ddysgu ac addysgu, adborth o safon uchel a metawybyddiaeth; | ✓ | |
| Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant; | ✓ | |
| O leiaf 60% o GDD ysgolion uwchradd i'w fuddsoddi yn nisgyblion cyfnod allweddol 3; | Dim yn berthnasol | |
| Datblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion | ✓ | |
| Sicrhau y cyhoeddir pob datganiad GDD ar wefan ysgol / G6. | ✓ | |

Yn ychwanegol i’r uchod rydym wedi defnyddio’r cyllid sydd ar gael i:

- Gyflogi cymorthyddion i roi sylw i grwpiau amrywiol o ddisgyblion sy’n cynnwys disgyblion PYD
- Brynu offer ac adnoddau TGCh i hybu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh trawsgwricwlaidd
- Brynu llyfrau ac adnoddau amrywiol i ddatblygu sgiliau iaith a rhif.

Yn 2019-20 rhoddwyd i Ysgol Edern ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £13,800. Mae cynllun unigol mewn lle sydd wedi’i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE.